Cofnodion y **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** a gynhaliwyd yn
Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, nos Lun, 18 Rhagfyr 2017 am **6:15p.m.**

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Ian Lewney (Cadeirydd), Stephen Beach, Jim Bryan, Ken Hawkins, Heather Williams ac Ifan Wyn.

45. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB
Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd Robert Owen-Ellis.

46. DATGAN BUDDIANNAU
Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

47. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL
Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 13 Tachwedd 2017 yn gywir.

48. MATERION YN CODI
Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

49. PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO
Adroddodd y Clerc am y penderfyniadau cynllunio a ganlyn a dderbyniwyd oddi wrth Gyngor Sir Ddinbych:
02/2017/0982 – Lodge Goch, Ffordd Llanfair, Rhuthun - Adeiladu estyniadau ac addasiadau i'r annedd (cynllun diwygiedig) – Caniatawyd
02/2016/1253 – Bron y Gaer Mews, Stryd y Castell, Rhuthun – Adnewyddu ffenestri (cais Adeilad Rhestredig) - Caniatawyd
02/2017/1014 – Clwb Peldroed Rhuthun, Caeau Chwarae Coffa, Ffordd Parc y Dre, Rhuthun **-** Codi eisteddle dan do newydd, estyniad i'r eisteddle dan do presennol a chodi ffens perimedr i amgáu a diogelu'r caeau chwarae – Caniatawyd
02/2017/0889 – Clwb Nos y Venue, Rhuthun - Codi eisteddle dan do newydd, estyniad i'r eisteddle dan do presennol a chodi ffens perimedr i amgáu a diogelu'r caeau chwarae – Caniatawyd.

50. CEISIADAU CYNLLUNIO
Bu'r Pwyllgor yn ystyried y ceisiadau am ganiatâd cynllunio a ganlyn a gyflwynwyd gan Gyngor Sir Ddinbych i gael eu sylwadau.
PENDERFYNWYD*: nad oedd unrhyw wrthwynebiadau i'r ceisiadau cynllunio a ganlyn:*
02/2017/0776 – 25 Stryd y Ffynnon, Rhuthun
Newid ac addasiadau i fodurdy ynghlwm i ffurfio estyniad i'r caffi a'r becws presennol
02/2017/113 – Hafan Deg, Ffordd Llanfair, Rhuthun
Dymchwel yr annedd presennol, codi 2 annedd ar wahân ac addasiadau i'r fynedfa gerbydau bresennol
02/2017/1130 – Wynnstay Stores plc, Heol y Parc, Rhuthun
Tystysgrif Datblygiad Cyfreithlon ar gyfer defnydd presennol y safle fel Dosbarth A1 manwerthu

51. AMCANGYFRIFON ARIANNOL
Ystyriodd yr aelodau yr amcangyfrifon ariannol arfaethedig ar gyfer 2018-19. Esboniodd y Clerc y byddai'r anfonebau am lifoleuo yn cael eu derbyn ym mis Ionawr neu Chwefror, ac y byddai gwariant yn erbyn y pennawd TG/gwefan i adnewyddu'r enwau parth am ddwy flynedd arall.
PENDERFYNWYD*: cynnwys £800 ar gyfer llifoleuo, £1,000 ar gyfer TG/gwefan a £500 ar gyfer gwariant amrywiol ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, yn do di gyfanswm o £2,300.*

52. NODYN CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL DRAFFT: ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL (AHNE) BRYNIAU CLWYD A DYFFRYN DYFRDWY – DOGFEN YMGYNGHORI
Tynnwyd sylw'r aelodau at y ddogfen a'r sesiwn galw heibio yn Loggerheads ym mis Ionawr.

PENDERFYNWYD*: y byddai'r Cynghorwyr Stephen Beach a Jim Bryan yn mynd i'r sesiwn galw heibio i drafod cynnwys y ddogfen ym Mharc Gwledig Loggerheads ddydd Iau, 18 Ionawr 2018, 2pm – 6pm.*

53. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD*: mai dyddiad y cyfarfod nesaf fydd nos Lun, 8 Ionawr 2018, am 6:45p.m.*